

Amcangyfrif Atodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23 Mawrth 2023

Mae'r adroddiad hwn yn nodi'r cais am amrywiad i gyllideb y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23. Mae'r Comisiwn Etholiadol yn gofyn am £122,000 ychwanegol i gwrdd â phwysau sy'n ymwneud â dyfarniadau cyflog, costau ymgyrchu a'r cynlluniau peilot pleidleisio cynnar



1. Amcangyfrif Atodol y Comisiwn Etholiadol ar gyfer 2022-23

Y cefndir

1. Yn ei lythyr eglurhaol am yr Amcangyfrif ar gyfer 2023-24, nododd y Comisiwn Etholiadol ("y Comisiwn") ei bod yn debygol y bydd angen i ni wneud amcangyfrif atodol i chi ym mis Tachwedd 2022".
2. Cadarnhaodd y Comisiwn ei gais am amcangyfrif atodol ar gyfer 2022-23 ar 20 Hydref 2022. Cafodd y cais hwn ei gynnwys yng Nghyllideb Atodol Llywodraeth Cymru, a osodwyd ar 14 Chwefror 2023.¹ Mae'r Amcangyfrif Atodol yn ceisio £122,000 ychwanegol (sy'n cyfateb i gynnydd o 8.6 y cant ar ei Amcangyfrif gwreiddiol ar gyfer 2022-23) i ateb pwysau sy'n ymwneud â dyfarniadau cyflog, costau ymgyrchu a'r cynlluniau peilot pleidleisio cynnar.
3. Mae'r amcangyfrif diwygiedig ar gyfer y Comisiwn Etholiadol i'w gael yn atodiad A i'r adroddiad hwn.
4. Trafododd y Pwyllgor y cais hwn yn ei gyfarfod ar 7 Tachwedd 2022², lle y trafodwyd yr amcangyfrif ar gyfer 2023-24 hefyd. Ar ôl i'r Gyllideb Atodol gael ei gosod, ymgynghorodd y Pwyllgor â Gweinidogion Cymru yn unol â Rheol Sefydlog 20.34A(ii)(a) ar 14 Chwefror 2023.³

Dyfarniadau cyflog

5. Mae Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022-23 yn nodi bod dyfarniadau cyflog ar gyfer 2022 wedi bod yn uwch na'r disgwyl, gyda'r Comisiwn yn gwneud cais am £7,000 ychwanegol gan y Senedd fel cyfran o'r gost.
6. Dywed y Comisiwn:

"Rydym wedi sicrhau bod tybiaethau cyflog realistig yn cael eu cynnwys yn ein Prif Amcangyfrif ar gyfer 2023/24, wrth barhau o fewn ein strategaeth ariannol o sicrhau na fydd costau

¹ [Ail Gyllideb Atodol Llywodraeth Cymru ar gyfer 2022-23, Chwefror 2023](#)

² [Cyfarfod Pwyllgor y Llywydd, 7 Tachwedd 2022](#)

³ [Llythyr gan y Cwnsler Cyffredinol a Gweinidog y Cyfansoddiad, 14 Chwefror 2023](#)

craidd yn uwch mewn termau real ar ddiwedd ein cynllun corfforaethol nag yr oeddent ar y dechrau.”⁴

7. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn pam mae'r costau'n uwch na'r tybiaethau gwreiddiol a wnaed yn amcangyfrif 2022-23, a gofynnwyd iddo gadarnhau pa aelodau o staff a oedd yn debygol o gael y dyfarniadau cyflog diwygiedig.

8. Eglurodd Kieran Rix (Cyfarwyddwr, Cyllid a Gwasanaethau Corfforaethol) i'r tybiaethau gael eu gwneud ym mis Medi 2021 yn unol â pholisi tâl y gwasanaeth sifil, ond iddi ddod yn amlwg ar ôl cyflwyno'r amcangyfrif na fyddai hynny'n gynaliadwy, felly fe benderfynodd y Comisiwn ar:

“... a pay award of a 4 per cent consolidated increase, plus a £1,000 non-consolidated pay award to all members of staff.”⁵

9. Cadarnhaodd Kieran Rix i bawb yn y sefydliad gael y dyfarniad hwn ac i arian ychwanegol gael ei ddyfarnu i rai aelodau o staff iddynt gyfymffurfio â'r isafswm cyflog.

Costau ymgyrchoedd

10. Tynnodd y Comisiwn sylw yn ei Amcangyfrif Atodol at y ffaith bod angen iddo “gywiro dyraniad costau ymgyrchoedd ledled y DU”. Mae'n dweud bod angen mwy o weithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn 2022-23 ar gyfer yr etholiadau llywodraeth leol ym mis Mai 2022 nag yr oedd wedi'i ganiatáu yn yr amcangyfrif gwreiddiol, sef ychwanegiad o £62,000.

11. Dywed y Comisiwn:

“Gan nad oes unrhyw ddigwyddiadau etholiadol mawr wedi'u cynllunio ar gyfer 2023, rydym yn hyderus na fydd hyn yn effeithio ar yr amcangyfrif ar gyfer 2023/24. Serch hynny, rydym wedi rhoi trefniadau cynllunio ariannol newydd ar waith i sicrhau bod dyraniadau yn fwy cadarn yn y dyfodol.”

12. Gofynnodd y Pwyllgor i'r Comisiwn esbonio ymhellach pam mae angen yr addasiad ledled y DU. Gofynnodd y Pwyllgor hefyd am sicrwydd o ran sut y mae'r

⁴Amcangyfrif Atodol y Comisiwn Etholiadol, Atodiad A

⁵Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 26

trefniadau cynllunio ariannol newydd yn fwy cadarn, a sut y byddai'r rhain yn lleihau'r posibilrwydd y byddai angen addasiad o'r fath yn y dyfodol.

13. Eglurodd Kieran Rix fod y Comisiwn:

*"...put special arrangements in place to make sure that we got the scrutiny of costs to the devolved contributors, to devolved funders, last year. In working through the amount of activity that was required in Wales and Scotland, we got that allocation wrong, despite those additional controls. I would like to place on record my apologies for that. This is of course the first time we had done that, but that isn't an adequate excuse; we had tried to put additional arrangements in place."*⁶

14. Dywedodd fod y Comisiwn wedi dysgu o'r flwyddyn gyntaf hon a'i fod wedi ceisio mynd i'r afael â'r mater hwn at y dyfodol drwy sicrhau ymgysylltu cynharach rhwng y timau cyllid a chyfathrebu a'r swyddfeydd datganoledig i gael darlun cywir o'r gweithgarwch ym mob blwyddyn.

Cynlluniau peilot pleidleisio cynnar

15. Mae'r Amcangyfrif Atodol yn nodi nad yw'r Comisiwn wedi gallu ariannu ei werthusiad statudol o'r cynlluniau peilot pleidleisio cynnar trwy gyllid gan Lywodraeth Cymru fel y cytunwyd yn wreiddiol. Cyfanswm cost gwerthuso'r cynlluniau peilot hyn oedd £53,000.

16. Yn ei Amcangyfrif Atodol, esboniodd y Comisiwn mai'r arferiad cyffredin oedd i'r Llywodraeth ariannu gwaith y Comisiwn ar gynlluniau peilot etholiadau yn uniongyrchol, ond ei fod wedi cael cyngor cyfreithiol yn nodi na ddylai'r gwaith gael ei ariannu yn y ffordd hon, gan fod yr asesiadau'n swyddogaethau statudol y Comisiwn.

17. O ran anallu'r Llywodraeth i ariannu'r cynlluniau peilot pleidleisio, gofynnodd y Pwyllgor pam na chafodd y mater hwn ei nodi cyn i'r gwerthusiad gael ei gynnal, ac a gafodd hyn unrhyw effaith ar y gweithgareddau arfaethedig yng Nghymru.

⁶ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 34

18. Eglurodd Kieran Rix mai mater o amseru ydoedd yn ei hanfod, a bod nifer o bethau anhysbys am y gwaith wrth i'r gyllideb gael ei baratoi ym mis Medi 2021 a bod y rhain yn golygu bod yn rhaid i'r Comisiwn:

*"... make some assumptions, both about what the level of activity would be and about how that would be funded."*⁷

19. Eglurodd ymhellach fod cyngor cyfreithiol ar yr hyn y gellir ac na ellir ei ariannu drwy gais o dan adran 10 yn nodi na ellid ariannu'r gweithgaredd sy'n gysylltiedig â'r cynlluniau peilot pleidleisio cynnar yn y modd hwn, ond i'r cyngor hwn ddod i law ar ôl i'r amcangyfrif ar gyfer 2022-23 gael ei gyflwyno.

20. Tynnodd sylw at y ffaith bod y Comisiwn wedi gwella ei weithdrefnau o ran cyllid adran 10, ac mai dim mwy na newid i'r ffynhonnell ariannu yw'r addasiad hwn, yn hytrach na newid i'r gweithgareddau a gynlluniwyd neu'r swm a amcangyfrifwyd.

Safbwynt y Pwyllgor

21. Mae'r Pwyllgor yn fodlon ar gais y Comisiwn am adnoddau ychwanegol.

22. Mae'r Pwyllgor yn nodi'r ymateb gan Weinidogion Cymru fod y swm y gofynnwyd amdano yn 'fforddiadwy o fewn y cyllid a drosglwyddwyd o Drysorlys Ei Fawrhydi'.

23. Mae'r Pwyllgor yn croesawu ymrwymiad y Comisiwn i sicrhau bod gwell deialog gyda'r Pwyllgor yn y dyfodol ynghylch alldroeon y Comisiwn a thanwariant posibl, a hynny mewn modd amserol.

24. Mae'r Pwyllgor yn nodi bod y Comisiwn wedi ceisio gwella ei broses o ran pryd y gellir defnyddio cyllid adran 10 ac wrth ddyrannu costau i ymgyrchoedd etholiadol, a byddai'n croesawu diweddariad ar y gwaith hwn fel rhan o'i ddeialog barhaus gyda'r Comisiwn.

⁷ Cofnod y Trafodion, 7 Tachwedd 2022, paragraff 37

Atodiad A

Y
Comisiwn
Etholiadol

The
Electoral
Commission

David Rees
Cadeirydd, Pwyllgor y Llywydd
Senedd
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

20 Hydref 2022

Annwyl David,

Parthed: Amcangyfrif Atodol 2022/23

Yn dilyn ein llythyr dyddiedig 28 Medi, rwyf nawr yn ysgrifennu i gadarnhau ein cais am Amcangyfrif Atodol ar gyfer 2022/23. Rydym yn ymofyn am £122,000 ychwanegol gan y Senedd er gyfer eleni er mwyn ateb tri straen.

Yn gyntaf, mae dyfarniadau cyflog ar gyfer 2022 wedi bod yn uwch na ddisgwyliwyd pan gyflwynwyd ein hamcangyfrif gwreiddiol. Er bod hyn yn fforddiadwy o fewn ein cyllideb gyffredinol, mae angen inni adolygu cyfraniadau gan y Seneddau datganoledig er mwyn adlewyrchu cyfran y costau yn unol â'r fformiwla ariannu y cytunwyd arni. Ar gyfer y Senedd, mae hyn yn gynydd o £7,000. Rydym wedi sicrhau bod tybiaethau cyflog realistig yn cael eu cynnwys yn ein Prif Amcangyfrif ar gyfer 2023/24, wrth barhau o fewn ein strategaeth ariannol o sicrhau na fydd costau craidd yn uwch mewn termau real ar ddiwedd ein cynllun corfforaethol nag yr oeddent ar y dechrau.

Yn ail, mae angen inni hefyd gywiro dyraniad costau ymgyrchoedd ledled y DU. Roedd angen mwy o weithgarwch ymwybyddiaeth y cyhoedd yn y flwyddyn ariannol hon ar gyfer yr etholiadau ym mis Mai 2022 nag a ganiatawyd gennym yn yr amcangyfrif gwreiddiol gan olygu ychwanegiad o £62,000. Gan nad oes unrhyw ddigwyddiadau etholiadol mawr wedi'u cynllunio ar gyfer 2023, rydym yn hyderus na fydd hyn yn effeithio ar yr amcangyfrif ar gyfer 2023/24. Serch hynny, rydym wedi rhoi trefniadau cynllunio ariannol newydd ar waith i sicrhau bod dyraniadau yn fwy cadarn yn y dyfodol.

Yn drydydd, nid ydym wedi gallu ariannu ein gwerthusiad statudol o'r cynlluniau peilot pleidleisio cynnar drwy gyllid gan Lywodraeth Cymru fel yr oeddem wedi cytuno â hwy yn wreiddiol. Er ei bod yn arfer cyffredin i'r Llywodraeth ariannu'r gwaith hwn yn uniongyrchol, cawsom gyngor cyfreithiol, gan fod yr asesiadau'n swyddogaeth statudol i'r Comisiwn, na ddylai'r gwaith gael ei ariannu fel hyn. Roedd costau'r gwaith hwn yn werth

£53,000; er bod hyn yn effeithio ar gyllideb y Comisiwn yng Nghymru mae, wrth gwrs, at ei gilydd yn niwtral.

Yn olaf, a gaf i achub ar y cyfle hwn i ddiolch i chi a'r Pwyllgor am eich cefnogaeth barhaus i weithgareddau'r Comisiwn yng Nghymru.

Yr eiddoch yn gywir,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Shaun McNally', written in a cursive style.

Shaun McNally CBE
Prif Weithredwr a Swyddog Cyfrifyddu, y Comisiwn Etholiadol

David Rees
Chair, Llywydd's Committee
Senedd
Cardiff Bay
Cardiff
CF99 1SN

20 October 2022

Dear David

Re: Supplementary Estimate 2022/23

Further to our letter of 28 September, I am now writing to confirm our request for a Supplementary Estimate for 2022/23. We are seeking an additional £122,000 from the Senedd for this year to meet three pressures.

Firstly, pay awards for 2022 have been higher than expected when we submitted our original estimate. While this is affordable within our overall budget, we need to marginally revise contributions from the devolved Parliaments to reflect the share of costs in line with the agreed funding formula. For the Senedd, this is an increase of £7,000. We have ensured that realistic pay assumptions are included within our Main Estimate for 2023/24, while remaining within our financial strategy of ensuring core costs will be no higher in real terms at the end of our corporate plan than they were at the beginning.

Secondly, we also need to correct the allocation of campaigns costs across the UK. More public awareness activity was required in this financial year for the elections in May 2022 than we allowed for in the original estimate by £62,000. As there are no major electoral events planned for 2023, we are confident that this will not affect the estimate for 2023/24. Nevertheless, we have put new financial planning arrangements in place to ensure allocations are more robust in future.

Thirdly, we have also been unable to fund our statutory evaluation of the early voting pilots through funding from the Welsh Government as we had originally agreed with them. Although it had been common practice for the Government to fund this work directly, we received legal advice that, as the assessments were a statutory function of the Commission, the work should not be funded this way. The costs of this work were £53,000; whilst this affects the Commission's budget in Wales it is, of course, neutral overall.

Finally, may I take this opportunity to thank you and the Committee for your on-going support for the Commission's activities in Wales.

Yours sincerely,

A handwritten signature in black ink, appearing to read 'Shaun McNally', written in a cursive style.

Shaun McNally CBE
Chief Executive and Accounting Officer, Electoral Commission